# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Family Housing Western Bay**

**Family Housing Association (Wales) Ltd**
**43 Walter Road**
**Abertawe**
**SA1 5PN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/01/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Family Housing Western Bay

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Family Housing Association (Wales) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nac ydy |

## Crynodeb

Mae Family Housing Western Bay yn wasanaeth cymorth cartref sy'n darparu cymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac mewn lleoliadau amrywiol ledled rhanbarth Bae Abertawe. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl ag amrywiaeth o anghenion gan gynnwys dementia, anabledd corfforol, nam ar y synhwyrau ac iechyd meddwl. Max Humber yw'r Unigolyn Cyfrifol ac mae rheolwr gweithrediadau wedi'i gyflogi sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Cyflogir rheolwyr ac arweinwyr tîm sy'n cwmpasu amrywiaeth o ardaloedd. Mae'r bobl yn cael gwasanaeth da gan Family Housing Western Bay gyda thîm o staff gofal sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n ymroddedig i'w gwaith. Mae'r tîm rheoli yn weladwy yn y gwaith o redeg y gwasanaeth. Mae systemau cadarn ar waith i sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth cymorth cartref a ddarperir yn cael ei oruchwylio.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac mae ganddynt lais yn y penderfyniadau hyn. Dywedodd adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cartref a hamdden er bod rhai wedi'u cyfyngu oherwydd y pandemig presennol. Dywedodd un unigolyn wrthym fod y staff *"are genuinely caring and thoughtful" ("yn wirioneddol ofalgar ac ystyriol")* a dywedodd unigolyn arall *"I get support with whatever I need, I just need to ask" ("Rwy'n cael cymorth pryd bynnag y mae ei angen arnaf, dim ond gofyn sydd raid i mi wneud")*. Mae yna gynlluniau gweithgareddau a chynlluniau gofal, y mae'r bobl yn cyfrannu atynt, ac mae'r staff gofal yn hybu hyn yn y gwasanaethau. Nododd y staff gofal eu bod yn deall pwysigrwydd cynnal a chadw a datblygu sgiliau a galluoedd y bobl.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg a'i reoli'n dda. Mae goruchwyliaeth dda gan yr unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli. Dywedodd yr holl staff gofal wrthym fod ganddynt gydberthynas waith gadarnhaol â'u rheolwyr, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod y rheolwyr yn gwrando arnynt. Dywedodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod cyfathrebu yn dda, gydag un yn nodi "s*taff and management are easy to contact" ("mae'n hawdd cysylltu â'r staff a'r rheolwyr").* Gwelsom fod gwiriadau gan yr unigolyn cyfrifol yn cael eu cwblhau, bod cyfarfodydd uwch-reolwyr yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cyfathrebu da ledled y sefydliad. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu'r adolygiadau bob chwe mis o ansawdd y gofal, ac rydym wedi gofyn i'r gwasanaeth fynd i'r afael â hyn cyn yr arolygiad nesaf. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu ar yr un pryd bob chwarter. Gwelsom y rhain ac roeddent yn cwmpasu meysydd megis llesiant, hyfforddiant a datblygiad. Dywedodd un rheolwr wrthym fod polisi newydd mewn perthynas â chynllunio gofal wedi cael ei gyflwyno yn ddiweddar. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ymgorffori hyn ledled y sefydliad.

Mae'r bobl yn ddiogel ac mae'r risgiau i'w hiechyd a'u llesiant yn cael eu lleihau cymaint â phosibl. Mae polisïau diogelu a chwythu'r chwiban manwl a thrylwyr sydd yn gyfredol ac yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Cyfeirir at fesurau rheoli heintiau a COVID-19 cyfredol yn glir mewn polisïau ac adroddiadau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth o safon dda i'r bobl. Gwnaethom siarad ag wyth unigolyn sy'n cael gwasanaeth a phedwar perthynas. Siaradodd pob un ohonynt yn gadarnhaol iawn am y staff gofal a'r rheolwyr. Dywedodd un unigolyn wrthym *“they are reliable, caring and they understand you” (“maent yn ddibynadwy, yn ofalgar ac maent yn eich deall”)* a dywedodd unigolyn arall *“brilliant, they go above and beyond what’s needed” (“gwych, maent yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen”)* Dywedodd perthynas wrthym *“they are fantastic, they know what they doing” (“maent yn wych, maent yn gwybod beth maent yn ei wneud”)* a dywedodd perthynas arall *“the staff always keep in contact with us and we can usually get hold of someone in a senior position if we need them” (“mae'r staff bob amser yn cadw mewn cysylltiad â ni ac fel arfer gallwn gysylltu â rhywun mewn swydd uwch os bydd ei angen arnom”).*

Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried ystod eang o wybodaeth, er mwyn cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion y bobl. Gwnaethom edrych ar wyth ffeil gofal, ac roedd pob un yn cynnwys gwybodaeth am anghenion a chanlyniadau personol y bobl. Mae tystiolaeth o waith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn dogfennaeth megis asesiadau, cynlluniau gofal a thaflenni sgyrsiau cadw'n iach. Mae adolygiadau o gynlluniau gofal yn cael eu cynnal bob tri mis. Mae'r rhain yn adlewyrchu cyfraniad yr unigolyn at ei ofal ac maent yn cynnwys canlyniadau a chyflawniadau personol. Dywedodd un unigolyn wrthym *“I get on well with the staff they are friendly and they know what they doing” (“Rwy'n dod ymlaen yn dda â'r staff, maent yn gyfeillgar ac yn gwybod beth maent yn ei wneud”).* Mae system gweithwyr allweddol ar waith a dywedodd aelod o'r staff wrthym *“key workers develop the support plans with tenants…staff take a person centred approach, helping tenants with whatever they feel they need” (“mae gweithwyr allweddol yn datblygu'r cynlluniau cymorth â'r tenantiaid...mae'r staff yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan helpu tenantiaid gyda beth bynnag y maent yn teimlo sydd ei angen arnynt”).* Dangosodd y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl, a dywedodd un ohonynt “*It is a pleasure to work in my job, as I see the difference this service makes to people's lives…become a more stronger and an independent person, being confident and having a purpose” (“Mae'n bleser gweithio yn fy swydd, am fy mod yn gweld y gwahaniaeth mae'r gwasanaeth hwn yn ei wneud i fywydau pobl...dod yn unigolyn cryfach ac annibynnol, yn hyderus ac mae pwrpas ganddynt”).* Gwnaethom ddarllen yr adroddiad bob tri mis ar ansawdd y gofal sy'n rhoi manylion trafodaeth ag unigolyn am ei uchelgeisiau a chynnydd presennol. Byddem yn argymell bod y gwasanaeth yn cynnwys adran am ddiogelu ac unrhyw gamau dilynol a gymerir er mwyn helpu i hybu dysgu.

Mae polisi newydd sy'n *“empowers people to live the life they want to lead” (“grymuso pobl i fyw'r bywyd maent am ei fyw”)*. Mae hyn yn seiliedig ar egwyddorion dull seicolegol a thrawma y mae cyfathrebu da a chyd-gynhyrchu yn allweddol iddo. Mae'r polisi hwn wrthi'n cael ei gyflwyno ledled y gwasanaeth cyfan ac mae adborth gan y staff gofal a'r rheolwyr yn gadarnhaol am ei gynnydd, nodau, amcanion ac effaith. Mae'r

adborth a geir gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y perthnasau a'r gweithwyr proffesiynol yn gadarnhaol iawn am gyfathrebu ledled y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod cymaint â phosibl. Mae yna bolisi diogelu manwl sy'n cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â diogelu. Er y cawsom wybod mai ychydig iawn o bryderon diogelu sydd, byddem yn cynghori'r gwasanaeth i gyfeirio atynt mewn adolygiadau ac adroddiadau ansawdd. Cyfeirir at fesurau rheoli heintiau a COVID-19 cyfredol yn glir mewn polisïau ac adroddiadau.

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau goruchwylio da ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth. Caiff y gwasanaeth ei reoli gan Bennaeth Gofal a Chymorth, ynghyd â dau Reolwr Gweithredol ac Unigolyn Cyfrifol. Mae arweinwyr tîm a chydlynwyr y gwasanaeth yn goruchwylio lleoliadau llety â chymorth unigol a'r gwasanaeth cymorth cartref. Gwnaed gwaith ailstrwythuro gofal a chymorth dros y misoedd blaenorol. Gwelsom ddogfen fanwl am hyn a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn fewnol ac yn allanol gyda'r staff a'r comisiynwyr. Mae adborth gan y staff a'r rheolwr yn dangos bod y newid hwn yn gadarnhaol yn gyffredinol ac yn cael ei groesawu ledled y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau a gwelsom fod y rhain yn drylwyr, yn fanwl ac yn cael eu hadolygu fel sy'n ofynnol. Mae dogfen hawdd ei deall ar gael mewn perthynas â chanmoliaethau a chwynion. Mae'r Datganiad o Ddiben presennol yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn llawn. Mae systemau sicrhau ansawdd priodol a chadarn ar waith, ac mae polisi clir yn disgrifio'r prosesau a'r ymarfer cysylltiedig ledled y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal gwiriadau bob tri mis o ddarpariaeth y gwasanaeth er nad oes unrhyw adolygiadau bob chwe mis o ansawdd y gofal yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gymryd camau i fynd i'r afael â hyn cyn yr arolygiad nesaf. Mae'r gwiriad bob tri mis diweddaraf a gwblhawyd gan yr unigolyn cyfrifol yn cynnwys trafodaethau rhithwir â'r rheolwyr. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau llesiant, mesurau COVID-19, digwyddiadau a hysbysiadau, archwiliadau o ffeiliau gofal, hyfforddiant a sicrhau ansawdd. Byddem yn argymell bod gwybodaeth am ddiogelu yn cael ei chynnwys hefyd. Mae rheolwyr llinell yn cwblhau adroddiadau a gwiriadau archwilio sicrhau ansawdd bob chwarter mewn meysydd megis gofal a chymorth, absenoldeb, hyfforddiant, canmoliaethau a chwynion gyda chamau cysylltiedig.

Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn fedrus ac yn gymwys i ddarparu'r gwasanaeth. Mae cofnodion hyfforddiant yn rhoi manylion hyfforddiant ar-lein y mae'r staff gofal wedi'i gwblhau yn ystod y misoedd diwethaf. Gwnaethom edrych ar y matrics hyfforddiant a gwelsom fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar gyfer y staff gofal yn gyfredol. Mae'r cofnodion yn dangos bod cyfnod sefydlu ar waith ar gyfer y staff gofal a bod hyn yn dilyn Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau wyth aelod o'r staff ac roedd yr holl ddogfennaeth recriwtio ar waith gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ac roeddent i gyd yn gyfredol. Roedd cofnodion goruchwylio ac arfarnu i gyd yn gyfredol ac yn cael eu cwblhau bob tri mis. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio cofnod cyfunol ar gyfer arfarnu a goruchwylio sy'n cael ei gwblhau bob tri mis. Dylid nodi hyn yn glir mewn dogfennau polisi.

Cwblhawyd ffurflenni adborth gan y staff gofal a chawsant eu hystyried yn yr adroddiad hwn. Roedd y ffurflenni hyn yn cynnwys manylion am y cymorth da gan yr arweinwyr tîm a'r rheolwyr. Dywedodd un aelod o'r staff *"I can go to my manager at any time and*

*always feel supported"* ("Gallaf fynd at fy rheolwr ar unrhyw adeg ac rwyf bob amser yn teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi"). Fodd bynnag, cwblhawyd mwy o ffurflenni adborth gan y staff ond ni chawsant eu hystyried oherwydd y cyfyngiadau amser.

## Yr Amgylchedd

Nid yw ansawdd yr amgylchedd yn thema sy'n gymwys ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny | | |
|---|---|---|
| | | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith | |
|---|---|
| | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Sicrhau bod adolygiadau o ansawdd y gofal bob chwe mis yn cael eu cwblhau. | Rheoliad 80 |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27.04.2021